**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

4ydd Rhagfyr, 2025

**Presennol**

Richard Williams (Cadeirydd), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Enid Egginton, John Jones (Garndolbenmaen), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Gwilym Evans (Prenteg) Iddon Edwards (Penmorfa)

**Ymddiheuriadau**

Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa) Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin), Clifford Williams (Garndolbenmaen) June Jones, Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd)

**Datgan Buddiant**

Neb

**Penderfyniadau**

**Ffioedd Claddu -** Derbyniwyd y ffioedd claddu newydd. EE yn cynnig ac IE yn eilio. Pawb yn gytûn.

**Bin Halen -** Penderfynwyd darganfod beth yw safbwynt Cyngor Gwynedd o ran llenwi biniau halen. Os yw'r biniau yn cael eu llenwi am ddim, yna archebu un bin halen newydd i'w osod pen uchaf i Gwrt Isaf, Cwm Pennant ac ail leoli'r bin presennol sydd ger Isallt yn uwch i fyny. JJ yn cynnig ac EE (Garn) yn eilio.

**Archwiliad Allanol 24/25 -** Derbyniwyd adroddiad yr Archwiliad Allanol. Diolchwyd i'r clerc am ei gwaith. Adroddiad i'w roi ar y wefan.

**Adroddiad Adran 6 -** Derbyniwyd yr adroddiad a diolchwyd i'r clerc. Adroddiad i'w gynnwys ar y wefan.

**Cynllunio - NP2/16/453A -** Dymchwel strwythurau ochr a chefn unllawr presennol a chodi estyniadau ochr a chefn unllawr deulawr.Tyn Rallt, Penmorfa. LL49 9SD. Dim gwrthwynebiad.